CYLCHGRAWN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# CALON TÂN

MAWRTH 2024



## CYFATHREBU'R RHANBARTHAU
TUDALEN 6



## #GWNEWCHYPETHAUBYCHAIN DYDD GWYL DEWI
TUDALEN 9


CWRDD A TÎM FFITRWYDD
TUDALEN 10

HWB DEMENTIA
TUDALEN 12

DIWRNOD RHYNGWLADOL Y MENYWOD
TUDALEN 16

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| DIGWYDDIADAU | 3 |
| SEREMONI GRADDIO | 4 |
| COMMS IN DIVISION | 6 |
| DYDD GWYL DEWI | 9 |
| CWRDD A'R TÎM - FFITRWYDD | 10 |
| HWB DEMENTIA | 12 |
| SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD | 13 |
| DIWRNOD PROFIAD Y GWEILCH | 14 |
| DIWRNOD RHYNGWLADOL Y MENYWOD | 16 |
| CHWARAEON A CHYMDEITHASU | 18 |
| SWYDDI | 20 |


Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Dyma beth a'n cadwodd yn brysur y mis diwethaf:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1394** Galwadau i'r Ganolfan Rheoli | **448** Digwyddiadau a fynychwyd | **33** O danau mewn adeiladau | **422** O alwadau ffug |
| **17** Anifail wedi'u Hachub | **18** O ddigwyddiadau achub dwr | **58** O wrthdrawiadau traffig ffyrdd | **41** O achosion o roi cymorth i asiantaethau eraill |






# DIGWYDDIADAU

## GOLCHI CEIR TREFORYS - 30 MAWRTH

## PANED GYDA CHRIW ABERDAUGLEDDAU - 13 EBRILL

## DIWRNOD RECRIWTIO DANGOS A DWEUD LLANDEILO - 20 EBRILL

## DIWRNOD AGORED PONTARDDULAIS - 31 MAI

## DIWRNOD PROFIAD DRENEWYDD - 19 MEHEFIN

## DIWRNOD PROFIAD HWLFFORDD- 11 GORFFENNAF

Mae yna groeso cynnes i bawb yn ein digwyddiadau cymunedol, gan gynnig cyfle gwych i chi gysylltu â'ch diffoddwyr tân lleol a chefnogi'r digwyddiadau a arweinir gan y gorsafoedd.

Nodwch y dyddiadau yn eich calendrau a chadwch olwg ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf a manylion am y digwyddiadau.

Peidiwch da chi â cholli allan ar y cyffro - dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol a gwahoddwch eich ffrindiau a'ch teulu.

## DILYNWCH NI AR:

- FACEBOOK
- X
- INSTAGRAM

# DIFFODDWYR TÂN AMSER CYFLAWN DIWEDDARAF GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

**Ddydd Iau, 21 Mawrth, cynhaliwyd Seremoni Raddio a Gorymdaith i nodi Cwblhau'r Cwrs Hyfforddi gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ar gyfer y garfan ddiweddaraf o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn.**

Roedd y digwyddiad, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hyfforddi Earlswood y Gwasanaeth, yn gyfle i ddathlu ac i fyfyrio ar lwyddiannau anhygoel y 12 unigolyn - sy'n cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel Carfan 01/24 - sydd wedi cwblhau eu cwrs trosi diffoddwyr tân Ar Alwad i ddiffoddwyr tân Amser Cyflawn yn ddiweddar, a hynny yng nghwmni eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Yn dilyn proses recriwtio helaeth lle cyflawnwyd amrywiaeth o heriau fel rhan o broses ddethol drylwyr, dechreuodd Carfan 01/24 ar eu cwrs preswyl wyth wythnos ar 25 Ionawr. Ers hynny, mae pob un ohonynt wedi datblygu'r sgiliau a'r galluoedd cychwynnol sydd eu hangen i gyflawni eu rolau newydd fel Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn.

Roedd y Seremoni'n cynnwys Gorymdaith y Recriwtiaid, pan ymunodd Gosgordd Faneri'r Gwasanaeth â nhw, ac Archwiliad o'r Recriwtiaid gan y Prif Swyddog Tân Roger Thomas, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Cynghorydd Gwynfor Thomas a'r Pennaeth Cyflenwi Hyfforddiant, Stuart Bate. Yna cynhaliwyd nifer o Arddangosfeydd Iard Ymarfer i ddangos y sgiliau ymateb brys y mae pob aelod o'r Garfan wedi'u datblygu yn ystod eu hyfforddiant, ac yn dilyn hynny cyflwynwyd y Tystysgrifau a'r Gwobrau.

**Cyn bo hir bydd pob un sydd wedi graddio yn dechrau eu gyrfaoedd fel Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn yn eu Gorsaf Dân ddynodedig. Mae pawb yn GTACGC yn eu llongyfarch ac yn dymuno gyrfa hir a llwyddiannus i bob un ohonynt.**







**Cameron Scott**
Gwobr y Cyflawnydd Mwyaf





**Thomas Kerton**
Gwobr Cyflawniad Ffitrwydd Corfforol





**Scott Davies**
Gwobr y Recriwtiaid

ERHYGL LLAWN

GOGLEDD

# ACHUB TEIFI Y MERLYN SHETLAND

**Ddydd Mawrth, Mawrth 5ed, bu criwiau Crughywel, Talgarth a Phontardawe yn achub Teifi, merlyn Shetland 21 oed a oedd wedi mynd yn sownd mewn grid gwartheg.**





Aeth y criwiau ymlaen i ddefnyddio offer gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac offer achub anifeiliaid i'w ryddhau o'r grid gwartheg. Yn dilyn y digwyddiad, dywedodd perchennog Teifi, Beth Watkins:

*"Rwy'n hynod ddiolchgar i griwiau'r Gwasanaeth Tân ac Achub am eu help wrth achub Teifi. Fe wnaethon nhw gynllunio ei ryddhau yn ofalus iawn a dangos gofal mawr tuag ato trwy gydol y digwyddiad.*

*Rwy'n falch o ddweud bod Teifi yn gwella'n dda ac ers hynny mae wedi dod yn enwog yn lleol!"*

**Y Cod Cefn Gwlad**

Llwyddodd Teifi i gyrraedd y grid gwartheg oherwydd bod giât wedi cael ei gadael ar agor gan gerddwyr ar lwybr hawl tramwy drwy'r fferm y mae'n byw arni.

Mae mwy o wybodaeth am y Cod Cefn Gwlad ar gael yma.





GORLLEWIN

# HWLFFORDD YN CYNNAL DIWRNOD PROFIAD I FENYWOD!

**Annog menywod i ystyried gyrfa fel Diffoddwyr Tân. Ddydd Mercher, 14 Mawrth fe wnaethom gynnal y cyntaf o ddau Ddiwrnod Profiad i Fenywod yn unig yr ydym wedi'u trefnu yng Ngorsaf Dân Hwlffordd.**

Rhoddodd y Diwrnod Profiad i Fenywod yn unig gyfle i fenywod sydd â diddordeb mewn bod yn ddiffoddwr tân gael gwell dealltwriaeth o'r rôl, yr agweddau amrywiol ar y broses recriwtio, pwysigrwydd ffitrwydd a llawer mwy.

Roedd y profiad 3 awr yn galluogi'r rhai oedd yn bresennol i roi cynnig ar wisgo'r cit diffodd tân llawn, ymarfer eu sgiliau amseru wrth gydosod/dadosod offer, profi eu cryfder a'u hystwythder trwy gario jetiau rîl pibell, llusgo dymi a phrofi eu gallu mewn mannau cyfyng. Cafodd y rhai a gymerodd ran daith o amgylch peiriant tân, ac yna sesiwn holi ac ateb gydag un o arbenigwyr hyfforddiant y Gwasanaeth.

Rhwng popeth, roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol. Rhoddodd gipolwg i'r rhai a oedd yn bresennol o'r hyn sydd ei angen i fod yn ddiffoddwr tân a'u hysbrydoli i fynd ati i ddechrau'r broses ymgeisio i fod yn ddiffoddwr tân ar alwad. Mae'r Diwrnodau Profiad hyn hefyd yn ein hatgoffa bod amrywiaeth a chydraddoldeb yn allweddol er mwyn creu tîm cryf ac effeithiol o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae mwy o wybodaeth am Ddiwrnodau Profiad GTACGC sy'n agored i bawb ar gael ar ein gwefan.

Os ydych chi'n credu bod gennych chi'r hyn sydd ei angen i fod yn ddiffoddwr tân ar alwad, cwblhewch y Ffurflen Mynegi Diddordeb er mwyn cychwyn arni!











DE

# HANNER MARATHON TIRNODAU LLUNDAIN MEWN CIT LLAWN

Fel y gwyddoch eisoes, bydd Nathan Bringloe, Rheolwr Gwylfa a Richard Davies, Rheolwr Gorsaf o Ranbarth y De yn rhedeg Hanner Marathon Tirnodau Llundain ar Ebrill 7. Byddant yn ymgymryd â'r her anhygoel hon mewn Cit Diffodd Tân llawn, gan gynnwys Set Offer Anadlu, i godi arian ar gyfer pedair elusen werth chweil - Elusen y Diffoddwyr Tân, Breast Cancer Now, Uned Canser y Fron Ysbyty'r Tywysog Philip a Macmillan.

Gadewch i ni helpu Nathan a Richard i ragori ar hyn. Gallwch ddangos eich cefnogaeth drwy gyfrannu'n syth i'w Tudalen JustGiving neu drwy fynd i'w digwyddiad Golchi Ceir yng Ngorsaf Treforys ar 30 Mawrth.

**Pob lwc i'r ddau!**

Fe wnaethom ofyn i'r Rheolwr Gwylfa Nathan pam y penderfynodd ymgymryd â'r her anhygoel hon a dyma'i ateb:

*"Penderfynais i gynnal nifer o ddigwyddiadau eleni i ddathlu fy mhen-blwydd yn 40.*

*Dewisais yr elusennau hyn oherwydd fel llawer o deuluoedd a ffrindiau ledled y DU a'r byd, mae fy nwy fodryb a Leanne Macbeth sy'n gweithio gyda ni wedi/yn brwydro yn erbyn y clefyd ofnadwy hwn ac roeddwn i eisiau gwneud rhywbeth iddyn nhw, i roi rhywbeth yn ôl ac i godi ymwybyddiaeth ac, os yn bosibl, rhywfaint o arian i helpu'r elusennau.*

*Y gwir amdani yw nad yw'r hyn rwy'n ei wneud yn ddim byd o'i gymharu â'r frwydr y mae pob menyw yn wynebu yn erbyn y clefyd erchyll hwn, sef Canser y Fron. Gobeithio y bydd yr hyn rydyn ni i gyd yn ei godi gyda'n gilydd drwy redeg yn helpu i ddatblygu gofal a thriniaeth i bob menyw yn y dyfodol.*

*Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu, a diolch arbennig i'r rhai sydd wedi fy helpu i godi'r arian/ymwybyddiaeth, mae fy nyled i'n fawr i chi i gyd."*

#TÎMGTACGC





# GWNEUD Y PETHAU BYCHAIN


**I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni bu'r Gwasanaeth yn cymryd rhan drwy #GwneudyPethauBychain**

St David's Day, the day we celebrate our patron saint and all things Welsh. When we remember his famous guiding words: gwnewch y pethau bychain — do the little things. What better way to celebrate than our new Welsh Language Officer Llew bringing those words to life with an outpouring of hwyl and kindness.

**Yn y llun mae rhai o'r aelodau staff a gymerodd ran yn lledaenu'r neges #GwnewchyPethauBychain yn ogystal â chyfraniad Gorsafoedd Caerfyrddin i Ddydd Gŵyl Dewi gyda'u cenhinen bedr ryfeddol.**













#GWNEUDYPETHAUBYCHAIN

# Cwrdd a'r Tîm



## CWRDD A'R TÎM FFITRWYDD

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n (GTACGC) cyflogi dros 1,300 aelod o staff sy'n darparu ymateb brys, gwybodaeth am ddiogelwch y cyhoedd, rhaglenni atal a diogelu a mwy i tua 12,000 cilomedr sgwâr – bron i ddwy ran o dair o Gymru.**

Mae'r Tîm Ffitrwydd, sydd wedi'i lleoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth ond sy'n gweithio ar draws ardal gyfan y Gwasanaeth, yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal iechyd, ffitrwydd a lles ein staff gweithredol i sicrhau'r lefel uchaf o ymateb brys posibl.

Trwy adolygiadau a hyfforddiant rheolaidd, yn ogystal â'u sgiliau a'u profiad arbenigol, maent wedi galluogi Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i fod yn un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub sy'n perfformio orau yn y DU o ran gyfradd lwyddo ein staff gweithredol.



### Steve Philpott
**Cydlynydd Iechyd a Ffitrwydd**

Helo, fy enw i yw Steve Philpott, fi yw Cydlynydd Iechyd a Ffitrwydd y Gwasanaeth ac rydw i wedi gweithio yn y Gwasanaeth ers wyth mlynedd.

Rwyf wedi gweld sawl peth yn gwella o ran iechyd, ffitrwydd a lles o fewn y Gwasanaeth yn ystod yr amser hwn. Rwy'n dwli ar fy swydd ac yn angerddol amdano'r gwaith yr wyf yn ei gwneud, rwy'n mwynhau rhannu fy mhrofiadau gydag iechyd, lles a hyfforddi corfforol. Rwy'n falch iawn bod ystadegau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn adlewyrchu'r gwaith hwn, gan gyflawni cyfradd pasio 99% dros y chwe blynedd diwethaf, sy'n ein gwneud yn un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub gorau o fewn y DU.

Cyn ymuno â'r Gwasanaeth, fe wnes i dreulio 38 mlynedd yn gweithio i'r Gwasanaethau Milwrol, yn gweithio gyda Chorfforaeth Hyfforddi Corfforol y Fyddin Frenhinol.

Tu allan i'r gwaith, rwy'n hoffi cadw'n heini ac mae fy niddordebau'n cynnwys crefft ymladd, paffio, sgïo, dringo, dringo mynyddoedd a chaiacio – ac rwy'n ddigon ffodus i hyfforddi'r rhain i gyd. Rydw i wedi bod yn briod â fy ngwraig Ellie ers 17 mlynedd ac mae gen i bedwar o blant, sydd i gyd yn fy nghadw i'n brysur iawn. Mae gen i hefyd ci Alsasaidd gwyn hyfryd o'r enw Buddy.









### Shane Earp
**Cynghorydd Iechyd a Ffitrwydd**

Helo, Shane ydw i a fi yw Cynghorydd Iechyd a Ffitrwydd y Gwasanaeth. Rwyf wedi gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am y pedair blynedd diwethaf ac rwyf wrth fy modd â'm swydd a phopeth y mae'n ei olygu, o gynnal darpariaeth ffitrwydd o safon uchel i bob aelod gweithredol o staff a darparu'r lefel uchaf o gefnogaeth a gwybodaeth i holl aelodau'r Gwasanaeth.

Rwyf wedi gweithio yn y diwydiant ffitrwydd ers dros ddegawd a chyn ymuno â'r Gwasanaeth, roeddwn i'n rhedeg fy musnes hyfforddi personol fy hun a wnaeth ddatblygu fy angerdd am iechyd, lles a ffitrwydd ymhellach.

Tu allan o'r gwaith, mae fy niddordebau'n cynnwys hyfforddi, crefft ymladd a cherddoriaeth, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rwyf wedi datblygu angerdd am droelli disgiau. Mae hyn yn rhywbeth rwy'n mwynhau ei wneud gyda fy nheulu, mae fy mad ifanc wrth ei fodd yn gwisgo ei glustffonau a dawnsio o gwmpas y lle!





HWB DEMENTIA

# HWB DEMENTIA NEWYDD

**Aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i bartneriaeth yn ddiweddar â Dementia Friendly Swansea er mwyn agor y ganolfan galw heibio Hwb Dementia ddiweddaraf yng Nghanolfan Siopa Aberafan.**

Mae Dementia Friendly Swansea yn elusen sy'n cynnig gobaith i bobl a theuluoedd y mae dementia yn effeithio arnynt. Mae'n lle sy'n groesawgar a chefnogol ac yn rhywle sy'n deall y clefyd a'i effeithiau.

Fel Gwasanaeth rydym yn cydnabod bod angen cymorth ychwanegol ar rai pobl - gan gynnwys pobl hŷn a phobl â dementia. Mae diogelwch tân yn y cartref yn fater pwysig i bawb ac yn enwedig i bobl sy'n byw gyda dementia. Dyna pam yr oedd yn fraint fawr i aelodau o'n Tîm Diogelwch Tân Cymunedol fod yn bresennol ar gyfer yr agoriad.

Dywedodd yr Arweinydd Diogelu ac un o Ymddiriedolwyr yr Hwb Dementia, Jay Crouch:

*"Rydym yn gweld y bobl fwyaf agored i niwed allan yn y gymuned ac mae'n wych cael adnodd fel yr Hwb dementia y gallwn eu cyfeirio ato am gefnogaeth ac yn yr un modd iddynt hwy gyfeirio pobl atom ninnau, ar gyfer Ymweliadau Diogel ac Iach."*

Rydym yn annog pobl i alw heibio i un o'r Hybiau Dementia a dweud helo wrth y tîm sydd yno i gefnogi pobl a theuluoedd y mae dementia yn effeithio arnynt.




ERHYGL LLAWN






# ACHREDIAD SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD I'R GWASANAETH AM Y 10FED FLWYDDYN YN OLYNOL

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ennill achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd am y 10fed flwyddyn yn olynol..**

Mae Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn cael ei dyfarnu i sefydliadau sy'n gallu dangos rheolaeth amgylcheddol effeithiol ac sy'n cymryd camau i ddeall, monitro a rheoli eu heffeithiau ar yr amgylchedd.

Dywedodd y Rheolwr Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd, Jess Millard:

*"Rwy'n hynod falch bod y Gwasanaeth wedi llwyddo i gynnal ei achrediad Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd am y 10fed flwyddyn yn olynol.*

*Mae llwyddo i gyrraedd y safon hon yn wych ac yn dangos ymrwymiad y Gwasanaeth i gynaliadwyedd amgylcheddol ac adfer byd natur."*



ERHYGL LLAWN

# CHWARAEWYR Y GWEILCH YN NEWID Y CAE RYGBI AM Y CAE TÂN!

**Ddydd Mercher, 20 Mawrth ymunodd aelodau o dîm Rygbi Hŷn y Gweilch â ni yng Nghyfleuster Hyfforddi Earlswood ar gyfer Diwrnod Profiad diffoddwr tân.**

Cysylltodd Cymdeithas Chwaraewyr Rygbi Cymru (WRPA) â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch eu Rhaglen Datblygu Personol (PDP) sy'n helpu chwaraewyr i gael cydbwysedd da o ran chwaraeon/ffordd o fyw yn ystod eu gyrfaoedd, a gan wneud hynny, yn y pen draw, mae'n gwneud y trawsnewidiad o'u gyrfa chwarae broffesiynol ac i gyflogaeth yn y dyfodol mor ddidrafferth â phosibl.

Rhoddodd y profiad 3-awr gyfle i'r chwaraewyr rygbi roi cynnig ar git llawn diffodd tân, profi eu cryfder a'u hystwythder trwy godi ysgolion oedd â phwysau arnyn nhw a chario jetiau pibelli ddŵr a wynebu eu hofnau mewn lle cyfyng wrth wisgo mwgwd dros eu llygaid! Ac yn dilyn hynny, taith o amgylch peiriant tân a sesiwn holi ac ateb gydag arbenigwr hyfforddi'r Gwasanaeth.

Dywedodd Tim Jones, Rheolwr Datblygiad Personol Cymdeithas Chwaraewyr Rygbi Cymru, sydd wedi'i leoli yn rhanbarth rygbi'r Gweilch:

"Rhan o fy rôl yw cefnogi chwaraewyr i ddod o hyd i yrfaoedd posib ar ôl bywyd yn y byd rygbi ac mae Diwrnodau Profiad fel hyn yn gyfle gwych i'r chwaraewyr brofi galwedigaethau eraill. Maen nhw wedi cael blas ar yr hyn y mae rôl diffoddwr tân yn ei olygu, a gall y cyfle hwn eu helpu i benderfynu a yw gyrfa yn y Gwasanaeth Tân ar eu cyfer nhw yn y dyfodol. Rydyn ni gyd yn ddiolchgar i GTACGC am y cyfle hwn, yn enwedig Rob a Mark a wnaeth y diwrnod yn bosibl."

Roedd y Diwrnod Profiad diffoddwr tân yn gyfle unigryw ac yn agoriad llygad i chwaraewyr y Gweilch, a roddodd bersbectif newydd iddyn nhw ar yr heriau y gallen nhw eu hwynebu mewn gyrfa fel diffoddwr tân.

Mae rhagor o wybodaeth am Ddiwrnodau Profiad GTACGC sy'n agored i bawb ar gael ar ein gwefan.

Os ydych chi'n meddwl bod gennych chi'r hyn sydd ei angen i fod yn ddiffoddwr tân Ar Alwad, llenwch y Ffurflen Mynegi Diddordeb i gychwyn eich taith!
















# DIWRNOD RHYNGWLADOL Y MENYWOD 2024

**I gefnogi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2024 cynhaliodd y Gwasanaeth ddigwyddiad yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i ddathlu teithiau a chyflawniadau menywod ysbrydoledig, o fewn ein teulu tân a thu hwnt. Cynhaliwyd y digwyddiad drwy gydol y dydd, gyda siaradwyr benywaidd, rhwydweithio cyfoedion ac ymarferiad adeiladu tîm gwych.**

Josephine Reynolds sef un o ddiffoddwyr tân benywaidd cyntaf y DU ac awdur Fire Woman ddechreuodd y diwrnod yn trafod ei stori ryfeddol. Dilynwyd hyn gan fideo Diwrnod Rhyngwladol y Menywod wedi'i recordio ymlaen llaw ar gyfer y Gwasanaeth gan Angylion Tân yr Antarctig lle buont yn siarad am eu hantur anhygoel i Begwn y De.

Anogodd y Pennaeth Adnoddau Corfforaethol, Ceri Jackson, drafodaethau ar ddiwylliant a chynhwysiant o fewn y Gwasanaeth ac i gloi'r diwrnod, cafwyd sgwrs fer gan yr Arweinydd Diogelu, Jay Crouch ar bwysigrwydd cynhwysiant mewn timau chwaraeon. Dilynwyd hyn gan ymarferiad adeiladu tîm sef gêm o rownderi a thaith gerdded lesol o amgylch y gerddi hardd.

Roedd holl deithiau'r siaradwyr yn wirioneddol ysbrydoledig a bu tipyn o gnoi cil, drwy'r grŵp cyfan. Fel Gwasanaeth byddwn yn parhau i herio stereoteipiau rhywedd, yn tynnu sylw at wahaniaethu ac at ragfarn, ac ar y cyd yn #ysbrydolicynhwysiant. Rydym eisoes yn edrych ymlaen at Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod 2025!



















**CHWARAEON A CHYMDEITHASU**

# DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

**Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.**

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:

ROWNDERI ROUNDERS

CLWB CRICED CRICKET CLUB

CLWB BOWLIO BOWLS CLUB

CLWB BEICIO CYCLING CLUB

CLWB PYSGOTA PLY FLY FISHING CLUB

CLWB PÊL DROED FOOTBALL CLUB

CLWB GOLFF GOLF CLUB

FFOCWS CHWARAEON MENYWOD FEMALE SPORTS FOCUS

CLWB RYGBI RUGBY CLUB

CLWB TRIATHLON TRIATHLON CLUB

CLWB TRAWSFFIT CROSSFIT CLUB

**Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg**

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau.

Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - s.philpott@mawwfire.gov.uk



# NODWEDD FISOL AR ADRAN CHWARAEON A CHYMDEITHASOL - FFOCWS AR GOLFF!

**Fel rhan o'n cipolwg misol ar glybiau Chwaraeon a Chymdeithasol GTACGC, yn rhifyn mis Mawrth rydym yn tynnu sylw at yr Adran Golff.**

Y Gymdeithas Golff yw'r adran sydd wedi bodoli hiraf o fewn clwb Chwaraeon a Chymdeithasol GTACGC. Ffurfiwyd yr adran ar ddiwedd yr wythdegau gan Howard Jones ac fe'i cynhaliwyd i ddechrau o fewn Brigâd Dân Sirol Dyfed. Trevor Davies a Graham Jackson o Ranbarth y Gogledd gymerodd yr awenau wedi'r uno o fewn y Gwasanaeth yng nghanol y 90au. Mae'r adran wedi parhau i dyfu a bellach mae ganddi fwy na 30 o aelodau o bob rhan o'r Gwasanaeth.

Mae'r Adran Golff yn cynnal 8 gêm y tymor ar amrywiol gyrsiau golff ar draws ardal y Gwasanaeth. Mae'r aelodau'n cystadlu mewn tabl teilyngdod gyda'r enillydd ar ddiwedd y tymor yn cipio tlws Pencampwr y Gwasanaeth a lle nodedig yn nhîm Golff Gwasanaeth Tân Cymru.

Mae diwrnodau golff yn achlysuron cymdeithasol go iawn ac mae personél presennol y Gwasanaeth, personél sydd wedi ymddeol, a theuluoedd yn dod ynghyd. Maent yn gynhwysol i bawb ac yn cynnig ffordd wych o gwrdd â phobl newydd. Mae'r dyddiau'n llawn hwyl ac yn rhoi cyfle i chi gyfarfod yn gymdeithasol am frecwast, chwarae golff am bris gostyngol ar rai o gyrsiau golff gorau'r ardal a gorffen y diwrnod gyda phryd o fwyd blasus.

Mae'r adran golff bob amser yn chwilio am aelodau newydd ac yn croesawu pawb, boed yn newydd i golff neu unigolion sy'n chwarae'n rheolaidd. Mae aelodau'r Adran Golff hefyd yn cael y cyfle i gystadlu dros Wasanaeth Tân Cymru yn y 4 Gwlad gan fynd i nifer o ddigwyddiadau Golff FiresportUK sy'n cael eu lleoli ar draws y DU trwy gydol y flwyddyn.

Nid oes angen mynd i bob digwyddiad; mae'r Adran Golff yn hyblyg iawn, ac mae pobl yn rhydd i gymryd rhan yn y digwyddiadau y dymunant ymuno â nhw. Mae'r adran yn edrych ymlaen i weld ambell wyneb newydd!

Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru ar gyfer digwyddiadau ewch i: Cymraeg - MID & WEST WALES GOLF SOCIETY (weebly.com) neu cysylltwch â'r **Cadeirydd/Capten - Charlie Taylor ar c.taylor@mawwfire.gov.uk**



**Cwrs Golff Bowood ddydd Sul 10fed Mawrth 2024**

SWYDDI

# GWEITHIO GYDA NI!

**Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.**

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

GWELD SWYDDI GWAG CYFREDOL >

# BUDDION

- **Cyfraddau cyflog cystadleuol**
- **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**
- **Gwyliau Blynyddol hael - 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.**
- **Cynllyn Hyblyg**
- **Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas**
- **Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir**
- **Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol**
- **Parcio am ddim ar y safle**
- **Beico i'r Gwaith**
- **Cynllun disgownt i staff**
- **Iechyd a Lles**

A LLAWER MWY!











AR ALWAD
Recriwtio Diffoddwyr Tân
ON CALL
Firefighter Recruitment

# DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?
Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!





Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# #MwyNaDimOndTanau
# #MoreThanJustFires

**www.tancgc.gov.uk**